# Cynllun Datblygu Ysgol Mynydd Bychan 2023 - 2024

## Crynodeb Cyhoeddedig

## Hunan-werthuso'r ysgol: crynodeb

### Cryfderau:

- Datblygir sgiliau personol a chymdeithasol y disgyblion yn dda iawn o'r cychwyn cyntaf yng ngham cynnydd 1. Ceir hyn effaith gadarn iawn ar ymddygiad a'r ethos o gydweithio a chyd-chwarae ar draws yr ysgol.
- Erbyn diwedd Cam Cynnydd 2 mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol mewn ystod eang o ffurfiau.
- Erbyn diwedd Cam Cynnydd 3 mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu'n glir ac yn effeithiol yn y ddwy iaith.
- Mae defnydd rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol yn datblygu'n dda iawn.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio medrau meddwl a sgiliau ymchwiliol da yn eu gwaith.
- Mae sgiliau digidol disgyblion yn cael eu datblygu'n dda, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r sgiliau hyn yn effeithiol ar draws pob maes o'u dysgu.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau ac amryw o strategaethau i oresgyn problemau ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus.
- Ar y cyfan, mae medrau dysgu annibynnol rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol o'u pwyntiau cychwyn amrywiol.
- Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn derbyn y gofal gorau posib o fewn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi pe baent yn gofidio.
- Mae ymddygiad bron pob un yn dda iawn o fewn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyderus pan yn cydweithio a'u cyfoedion ac eraill.
- Mae bron bob disgybl yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu gyda'r rhan fwyaf yn dangos ymroddiad yn y gwersi a'r gallu i ddyfalbarhau'n dda ar dasgau am gyfnodau estynedig.
- Mae bron pob disgybl yn chwarae rhan werthfawr yn y gymuned.
- Ceir ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion i gyfrannu at fywyd ysgol trwy wahanol grwpiau llais disgyblion.
- Mae ystafelloedd dosbarth yn amgylcheddau dysgu cynhyrchiol, gweithredol a deniadol.
- Cynllunir gwersi gofalus a manwl sy'n ysgogi diddordeb a brwdfrydedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn llwyddiannus.
- Cynllunir a defnyddir amrywiaeth o strategaethau addysgu'n effeithiol gan bron pob athro, sy'n cynnwys gwaith ymchwiliol a chreadigol er mwyn cynnwys a chwrdd â gofynion pob disgybl
- Cynllunir nifer o weithgareddau priodol sy'n galluogi bron pob disgybl i ddatblygu'n plentyn cyflawn.
- Mae bron bob disgybl yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu gyda'r rhan fwyaf yn dangos ymroddiad yn y gwersi a'r gallu i ddyfalbarhau'n dda ar dasgau am gyfnodau estynedig.
- Mae perthynas dda iawn rhwng y disgyblion a'r athrawon ac mae gan y rhanfwyaf ddisgwyliadau uchel a heriol ar eu cyfer.
- Ceir ethos Gymreig rhagorol yn yr ysgol
- Ceir amrywiaeth eang, da o brofiadau ysgogol sy'n datblygu'r medrau'n dda.
- Mae gan yr ysgol ethos gofalgar a chynhwysol iawn.
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol iawn.
- Sicrheir cyfle cyfartal i bob disgybl ym mhob agwedd o'i gwaith.
- Mae'r ysgol yn gosod pwyslais eithriadol o uchel ar gydraddoldeb, amrywiaeth a pharch.
- Mae trefniadau effeithiol iawn yn eu lle ar gyfer helpu disgyblion i reoli eu teimladau a datblygu hunanddelwedd a hunan-barch.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn.
- Datblygir gwerthfawrogiad disgyblion o wahanol ddiwylliannau a chredoau eraill yn llwyddiannus iawn.

- Mae’r ysgol yn gwneud trefniadau effeithiol iawn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ynghyd â chadw’n heini. O ganlyniad, mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta’n iach a chadw’n heini.
- Mae gweithdrefnau diogelu plant yn gadarn. Mae dealltwriaeth y disgyblion o sut i gadw’n ddiogel ar y we yn dda iawn.
- Mae gan y pennaeth, y llywodraethwyr a’r uwch dîm rheoli weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer datblygu’r ysgol yn gymuned lwyddiannus.
- Mae’r uwch dîm rheoli yn chwarae rôl lawn wrth osod cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol.
- Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad trylwyr sy’n annog staff i ddatblygu a gwella eu harfer trwy osod amcanion pwrpasol sy’n cyd-fynd â blaenoriaethau’r ysgol.
- Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth gynhwysfawr a dealltwriaeth drylwyr am berfformiad a phrosesau’r ysgol
- Mae gweithdrefnau hunanarfarnu’r ysgol yn fanwl ac yn cynnwys ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol a phriodol, sy’n seiliedig ar ansawdd yr addysgu a dysgu
- Mae'r Cynllun Gwella Ysgol yn ddogfen weithredol. Mae'r camau gweithredu buddiol ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau yn cynnwys amserlen gweithredu fanwl ac yn nodi cyfrifoldebau staff, adnoddau a gofynion cyllidol yn glir.
- Mae’r ysgol yn cydweithio’n llwyddiannus iawn gydag amrywiaeth o ysgolion cynradd i rannu arfer dda o fewn yr addysgu i ddatblygu lles a safonau disgyblion.
- Mae gan yr ysgol gynllun manwl ar gyfer defnyddio’r Grant Datblygu Disgyblion, sy’n nodi cefnogaeth bwrpasol ar gyfer disgyblion difreintiedig

## Meysydd i'w datblygu:

- Cymhwyso a chryfhau medrau sylfaenol y dysgwyr yn drawsgwricwlwaidd
- Mireinio, datblygu a gwerthuso strategaethau asesu ar gyfer dysgu
- Cynnal a gwella safonau addysgu gwyddoniaeth
- Datblygu medrau ysgrifennu cyfoethog yn drawsgwricwlaidd
- Datblygu sgiliau darllen, y Gymraeg yn bennaf
- Yn dilyn gweithdy Addysg Gyd-berthynas a Rhywioldeb ysgolion y dair clwstwr yng Nghaerdydd, ymwreiddio gofynion Cynllun Addysg Gyd-berthynas a Rhywioldeb ar draws yr ysgol
- Adolygu a mireinio map Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Ehangu arweinyddiaeth dosranedig er mwyn sicrhau gweithdrefnau atebolrwydd clir.
- Parhau i fapio’r sgiliau a’r geirfa o fewn y chwe Maes Dysgu a Phrofiad

| GWERTHUSIAD CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2022/23 | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **Gwerthuso cynnydd** |
| 1. Blaenoriaeth 1 - Mireinio a gweithredu trefniadau asesu a thracio cynnydd yn unol â gofynion ‘Trefniadau Asesu’ Cwricwlwm i Gymru. | • Sicrheir bod asesu yn rhan sylfaenol o'r broses addysgu a dysgu. O ganlyniad, defnyddir gwybodaeth asesu yn effeithiol i wella canlyniadau dysgu.<br>• Cynllunir gweithgareddau priodol sy'n cefnogi bron pob disgybl i barhau i adeiladu ar ddysgu blaenorol drwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae’r staff yn sicrhau bod hyn yn parhau wrth i ddisgyblion drosglwyddo o un grŵp blwyddyn i'r nesaf.<br>• Mae’r staff yn fwy hyderus wrth adnabod, cipio a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cefnogir a hyrwyddir lles disgyblion yn effeithiol iawn yn ystod arferion asesu<br>• Mae’r staff yn fwy hyderus wrth asesu cynnydd dysgwyr. Maent yn gwerthuso'r dysgu gan ddefnyddio nifer o strategaethau effeithiol fel cwestiynu a thrafod.<br>• Sicrheir bod asesu yn allweddol i gefnogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar hyd yr un continwwm ar gyflymder priodol, tra’n sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio i gyflawni eu potensial.<br>• Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall ar ba gam y maen nhw’n eu dysgu a ble mae angen iddyn nhw fynd nesaf<br>• Mae bron pob disgybl yn cyfrannu at y broses ddysgu ac yn cymryd rhan ynddi, mewn modd sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u cyfnod datblygu.<br>• Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb i adborth ac yn gweithredu arno fel rhan o'u dysgu. |
| 2. | Blaenoriaeth 2 - Hyrwyddo iechyd a lles disgyblion er mwyn datblygu eu gallu i wynebu heriau a chyfleoedd bywyd | • Dyfarnwyd y Wobr Ansawdd Genedlaethol Ysgolion Iach i'r ysgol. Dim ond 12% o ysgolion Cymru sydd wedi derbyn y wobr hon.<br>• Darparwyd rhaglenni gweithgareddau unigol sydd wedi'u teilwra’n llwyddiannus i anghenion penodol pob disgybl. Mae’r staff wedi derbyn yr hyfforddiant priodol i gefnogi’r disgyblion yn effeithiol iawn.<br>• Mae bron pob disgybl yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt.<br>• Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod y ‘byrddau lles’, bocsys poeni ac amser cylch yn ddefnyddiol iawn. Mae'r disgyblion yn teimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth mewn amryw o ffyrdd. Mae'r staff yn darparu cefnogaeth dda iawn i'r disgyblion.<br>• Mae bron pob un o'r disgyblion sydd wedi derbyn cymorth priodol ar gyfer eu lles meddyliol yn fwy parod i ddysgu a gweithio. |
| 3. | Blaenoriaeth 3 - Sicrhau bod gan y disgyblion sgiliau a gwybodaeth rhifiadol da er mwyn datrys problemau rhesymu yn hyderus. | • Defnyddir gwahanol ffyrdd o gyflwyno gwersi e.e. gyda phroblem, gweithgaredd ymarferol neu ddatganiad. O ganlyniad, mae hyn wedi caniatáu i ddysgu cydweithredol ddigwydd sy'n defnyddio iaith resymu.<br>• Mae’r athrawon yn fwy hyderus wrth fodelu sut i ddefnyddio strategaethau rhesymu i ddatrys problemau.<br>• Mae’r athrawon wedi ymchwilio a defnyddio gweithgareddau rhesymu addas ar gyfer disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu edrych ar gwestiwn a phenderfynu pa sgiliau rhifiadol sydd eu hangen a pha gamau i'w cymryd i ateb y cwestiynau.<br>• Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth rhifedd i ddatrys problemau rhifiadol.<br>• Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu edrych ar gwestiwn a phenderfynu pa sgiliau rhifiadol sydd eu hangen a pha gamau i'w cymryd i ateb y cwestiynau.<br>• Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio geirfa/iaith resymu i esbonio eu cyfrifiadau.<br>• O gymharu'r canlyniadau prawf rhesymu 2022 a 2023, roedd gwelliant yn y sgoriau cyfartalog dosbarth ym Mlynyddoedd 2, 3, 4, 5 a 6. |
| 4. | Blaenoriaeth 4 - Parhau i gynllunio a mapio’r disgrifiadau dysgu | • Sicrheir bod cynnwys cwricwlwm Ysgol Mynydd Bychan yn cysylltu â datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a bod ein gweledigaeth wrth wraidd holl weithgareddau'r ystafell ddosbarth. |

| | |
|---|---|
| | • Mae’r staff wedi cynllunio a gweithredu gwersi a phrofiadau cyfoethog a diddorol i ddisgyblion sy’n seiliedig ar gynnwys y disgrifiadau dysgu.<br>• Mae gweithgareddau hunanwerthuso (arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau, teithiau dysgu a thrafodaethau gyda disgyblion) wedi dangos bod bron pob disgybl yn llawn cymhelliant, brwdfrydig ac yn gwneud cynnydd.<br>• Darperir cyfleoedd i ehangu a chymhwyso sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn.<br>• Yn diyn cydweithio ar Faes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) Celfyddydau Mynegiannol gydag ysgolion clwstwr Glantaf. mae gan yr athrawn well ddealltwriaeth o sut i fapio cynnydd ar draws y MDaPh.<br>• Mae gan y staff ddealltwriaeth gyffredin o sut mae eu haddysgu yn cefnogi ein dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben. |
| 5. Blaenoriaeth 5 - Cynnal a gwella safonau addysgu Gwyddoniaeth er mwyn gwella ymgysylltiad disgyblion â Gwyddoniaeth a’u cyrhaeddiad yn y pwnc | • Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn cynllunio gwersi ysgogol ac ymarferol sy'n gyfrwng i ddatblygu medrau gwyddonol y disgyblion yn effeithiol. Ble mae'r addysgu ar ei orau gwelir cyfleoedd i'r disgyblion arwain y dysgu a gwneud penderfyniadau ynglŷn a'r ymholiadau.<br>• Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn defnyddio technegau cwestiynau effeithiol er mwyn annog y disgyblion i drafod ac ymateb yn bwrpasol.<br>• Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn cynnig sgaffaldau ieithyddol cadarn ar gyfer trafod sy'n sicrhau defnydd cyson o eirfa a gwybodaeth wyddonol.<br>• Mae bron bob un o'r dosbarthiadau Cam Cynnydd 1 a 2 yn cynllunio profiadau dysgu pwrpasol sy'n atgyfnerthu'r medrau gwyddonol gan gynnwys yn yr ardaloedd o ddarpariaeth barhaus, estynedig ac allanol.<br>• Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymgysylltu'n dda a'u gweithgareddau ac yn dangos mwynhad amlwg o'r pwnc.<br>• Mae llawer yn gallu defnyddio geirfa wyddonol yn hyderus a chywir ar y cyfan<br>• Mae llawer yn gallu cyfiawnhau safbwynt, barn neu ragfynegiad gan ddefnyddio gwybodaeth wyddonol i'w atgyfnerthu.<br>• Yn dilyn gweithgareddau hunanwerthuso, trafodaethau a rhannu arfer da mewn cyfarfodydd PSQM (Marc Ansawdd Gwyddoniaeth Ysgolion Cynradd), mae strategaeth glir ar gyfer cynllunio a gweithgareddau gwyddoniaeth yn y dyfodol ar waith, er mwyn cynnal a gwella safonau a chynnydd |

| BLAENORIAETHAU CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2023/24 | | |
|---|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **Camau Allweddol** | **Cefnogaeth** |
| **1.** Cymhwyso a chryfhau medrau sylfaenol y dysgwyr yn drawsgwricwlwaidd – siarad a a gwrando, sgiliau ymchwiliol, cymhwysedd digidol | • Mapio trylwyr a monitro cyson er mwyn sicrhau ehangder a dyfnder i ddysgu.<br>• Cynllunio a gweithredu cyfleoedd i ddisgyblion i gymhwyso sgiliau mewn profiadau difyr, go iawn.<br>• Monitro darpariaeth cwricwlwm yn ôl dosbarth a cham cynnydd.<br>• Gwerthuso cynnwys y cwricwlwm ac ansawdd y dysgu a'r addysgu.<br>• Gweithredu amgylchedd dysgu lle mae gan ein disgyblion ryddid i ymchwilio'u diddordebau, trafod gwahanol safbwyntiau a gofyn cwestiynau am y pwnc y maent yn ei astudio. | HMS - hyfforddiant Building Blocks, HMS – hyfforddiant 'Dysgu ar Sail Ymchwiliad', Cwmni 'Learning Partnership'. |
| **Cerrig Milltir Rhagfyr**<br>• Staff i dderbyn hyfforddiant Building Blocks<br>• Staff i dderbyn hyfforddiant ar 'Ddysgu ar sail Ymchwiliad'<br>• Athrawon i ddefnyddio 'Building Blocks' i gynllunio<br>• Athrawon a Chynorthwywyr i sicrhau bod amgylchedd dysgu'r dosbarth, gan gynnwys yr ardal allanol, yn cefnogi 'Dysgu ar Sail Ymholiad'.<br>• Sicrhau bod adnoddau addas a phwrpasol ar gael i'r disgyblion fel y gallant eu defnyddio i archwilio'r pwnc/testun/problem.<br>• Cynllunio a mapio cyfleoedd dysgu ar sail ymholiad<br>• Defnyddio Map Cymhwysedd Digidol CC1, CC2 a CC3 yn effeithiol i gynllunio gwersi sy'n rhoi'r cyfle gorau i bron pob disgybl ddefnyddio a datblygu'u sgiliau cymhwysedd digidol.<br>• | **Cerrig Milltir Mawrth**<br>• Gweithredu amgylchedd dysgu lle mae gan ein disgyblion ryddid i ymchwilio'u diddordebau, trafod gwahanol safbwyntiau a gofyn cwestiynau am y pwnc y maent yn ei astudio.<br>• Athrawon i arwain y disgyblion drwy'r broses ymchwilio a'u helpu i ofyn cwestiynau a dod o hyd i atebion i broblemau byd go iawn.<br>• Athrawon i addysgu ac annog y disgyblion i feddwl yn feirniadol am y wybodaeth sydd o'u blaenau, i gwestiynu'r wybodaeth ac i ddatblygu eu datrysiadau eu hunain. | **Cerrig Milltir Gorffennaf**<br>• Cynllunio cyfleoedd i'r disgyblion gymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu i ddatrys problemau byd go iawn<br>• Gwerthuso cynnwys y cwricwlwm ac ansawdd y dysgu a'r addysgu.<br>• Nodi'r meysydd ar gyfer gwella pellach<br>• Cynnal gwersi ragorol sy'n seiliedig ar ymchwiliad sydd wedi'u cynllunio o amgylch cwestiwn neu broblem ganolog<br>• |

<table>
<tr>
<td>2. Mireinio, datblygu a gwerthuso ein strategaethau asesu ar gyfer dysgu er mwyn hyrwyddo rol y dysgwyr o fewn gweithdrefnau asesu'r ysgol.</td>
<td><ul><li>Defnyddio system Traciwr i olrhain ymddygiad, ymdrech ac agwedd at ddysgu</li><li>Asesu cynnydd dysgwyr yn barhaus. Defnyddio asesu arsylwadol i chwilio am dystiolaeth o ddysgu wedi'i wreiddio er mwyn asesu'r hyn y gall dysgwr ei wneud yn gyson ac yn annibynnol mewn ystod o brofiadau dysgu.</li><li>Darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion, a'u cefnogi i ddatblygu'r sgiliau perthnasol i wneud hyn yn llwyddiannus – taflenni asesu cyfoedion, sbectolau sylwi</li><li>Datblygu ymhellach sgiliau disgyblion i wneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o adborth i symud eu dysgu yn ei flaen.</li></ul></td>
<td>HMS: System Traciwr, tracio a monitro cynnydd o fewn y cwricwlwm newydd<br><br>HMS – Strategaethau 'Walkthrus' Cymryd rhan yn y prosiect Barn Gymharol No More Marking ar gyfer Asesu Ysgrifennu Cymraeg Cynradd - Prosiect a Ariennir Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu Barn Gymharol<br><br>HMS – Defnyddio Darllen Co yn effeithiol yn y dosbarth ac adref</td>
</tr>
<tr>
<td>Cerrig Milltir Rhagfyr<ul><li>Athrawon i ymgyfarwyddo a defnyddio system Traciwr yn effeithiol i olrhain ymddygiad, ymdrech ac agwedd at ddysgu</li><li>Cynnal cyfarfodydd cynnydd er mwyn trafod safonau a lles dysgwyr unigol.</li><li>Cymryd rhan yn y prosiect Barn Gymharol No More Marking ar gyfer Asesu Ysgrifennu Cymraeg Cynradd - Prosiect a Ariennir Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu Barn Gymharol</li><li>Cydweithio gydag ysgolion Clwstwr Glantaf er mwyn sicrhau cynnydd cydlynol.</li><li>Gweithredu Cynllun Pontio Glantaf Gweithredu Cynllun Pontio Glantaf</li><li>Cydweithio gyda phedair ysgol arall i greu adnodd 'targed ieithyddol personol' i bob dysgwr ar ffurf côd 'QR.</li></ul></td>
<td>Cerrig Milltir Mawrth<ul><li>Cynnal cyfarfodydd cynnydd er mwyn trafod safonau a lles dysgwyr unigol.</li><li>Datblygu ymhellach sgiliau'r dysgwr i wneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o adborth i symud eu dysgu yn ei flaen.</li><li>Darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion, a'u cefnogi i ddatblygu'r sgiliau perthnasol i wneud hyn yn llwyddiannus – taflenni asesu cyfoedion, sbectolau sylwi</li><li>Cydweithio gydag ysgolion Clwstwr Glantaf er mwyn sicrhau cynnydd cydlynol.</li><li>Gweithredu Cynllun Pontio Glantaf</li><li>Addysgu'r disgyblion i ddefnyddio'r côd QR targedau ieithyddol yn gywir</li></ul></td>
<td>Cerrig Milltir Gorffennaf<ul><li>Cynnal cyfarfodydd cynnydd er mwyn trafod safonau a lles dysgwyr unigol.</li><li>Datblygu ymhellach sgiliau'r dysgwr i wneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o adborth i symud eu dysgu yn ei flaen.</li><li>Darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion, a'u cefnogi i ddatblygu'r sgiliau perthnasol i wneud hyn yn llwyddiannus – taflenni asesu cyfoedion, sbectolau sylwi</li><li>Cydweithio gydag ysgolion Clwstwr Glantaf er mwyn sicrhau cynnydd cydlynol.</li><li>Gweithredu Cynllun Pontio Glantaf</li><li>Addysgu'r disgyblion i ddefnyddio'r côd QR</li></ul></td>
</tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | targedau ieithyddol yn gywir |
| 3 Cynnal a gwella safonau addysgu gwyddoniaeth er mwyn gwella ymgysylltiad disgyblion a gwyddoniaeth a'u cyrhaeddiadyn y pwnc<br><br>(Parhad o GGY 2022 – 2023) | • Asesu safonau disgyblion ar ddechrau ac ar ddiwedd y broses<br>• Creu amserlen er mwyn ymgysylltu â gweithgareddau gwyddoniaeth (ysgol gyfan)<br>• Cynllunio a gweithredu gweithgareddau gwyddonol fel bod y dysgwyr yn derbyn ystod o brofiadau dysgu yn ystod y wers e.e. cofnodi ar dabl, ymchwilio ymarferol, llunio dull a didoli er mwyn cynllunio prawf teg.<br>• Sicrhau bod y tasgau wedi'u gwreiddio mewn ateb problem sefyllfa bywyd go-iawn<br>• Monitro gwersi gwyddoniaeth, a monitro trawsdoriad o lyfrau dysgwyr CC1, 2 a 3<br>• Cydlynydd Gwyddoniaeth i gydweithio gyda'r Arweinydd Hwb drwy gydol proses Marc Ansawdd Gwyddoniaeth Cynradd (PSQM) | • HMS: Gwerthuso, ac adfyfyrio ar ansawdd addysgu a dysgu Gwyddoniaeth yn yr ysgol<br>• HMS: dullau addysgu a dysgu gwyddoniaeth gan gynnwys cwestiynu effeithiol |
| **Cerrig Milltir Rhagfyr**<br><br>• HMS noswyliol - gwerthuso, ac adfyfyrio ar ansawdd addysgu a dysgu gwyddoniaeth yn yr ysgol gan gynnwys cwestiynu effeithiol.<br>• Asesu safonau disgyblion ar ddechrau ac ar ddiwedd y broses.<br>• Cynllunio a gweithredu gweithgareddau gwyddonol diddorol, cyfoethog a fydd yn sbarduno'r dysgwyr i ymgysylltu yn y dysgu<br>• Parhau â mapio disgrifiadau dysgu, geirfa a sgiliau gwyddonol (Cynllun Gwyddoniaeth a Thechnoleg Clwstwr Glantaf)<br>• Rhannu arfer da, craffu ar waith dysgwyr sy'n sicrhau cysondeb yn yr addysgu a'r dysgu. | **Cerrig Milltir Mawrth**<br><br>• Cynllunio a gweithredu cyfleoedd datblygu dysgu Gwyddoniaeth yn<br>• drawsgwrcwlaidd.<br>• Datblygu medrau llythrennedd yn drawsgwricwlaidd trwy osod sgaffaldau ieithyddol cadarn ar gyfer trafod a chwestiynu effeithiol.<br>• Rhoi cyfleoedd i deuluoedd gymryd rhan mewn gweithgareddau gwyddoniaeth rhwng yr ysgol a'r cartref.<br>• Tasgiau wedi'u gwreiddio mewn ateb problemau sefyllfa bywyd go iawn | **Cerrig Milltir Gorffennaf**<br><br>• Asesu safonau disgyblion ar ddechrau ac ar ddiwedd y broses.<br>• Cynllunio a gweithredu gweithgareddau gwyddonol diddorol, cyfoethog a fydd yn sbarduno'r dysgwyr i ymgysylltu yn y dysgu<br>• Gweithgareddau monitro: craffu ar lyfrau, trafod gyda'r dysgwyr yn dangos cynnydd yn safonau gwyddoniaeth bron pob dysgwr ar ddiwedd y flwyddyn. |

| | | |
|---|---|---|
| • Staff a dysgwyr | | • Bron pob dysgwr yn derbyn ystod o brofiadau dysgu yn ystod y wers e.e cofnodi ar dabl, ymchwilio ymarferol, llunio dull a didoli er mwyn cynllunio prawf teg.<br>• Fe fydd bron pob dysgwr yn defnyddio technegau cwestiynu yn effeithiol wrth wneud ymchwiliad. |